

Parti Pen-blwydd 100 yr Urdd

Rydych wedi bod yn rhan o rywbeth arbennig dros y 100 mlynedd ddiwethaf, felly beth am wneud ymdrech ENFAWR i dorri record y byd?!

Cyfarwyddiadau ar gyfer yr ymgais am ddau deitl Guinness World Records™:

- Y nifer mwyaf o fideos o bobl yn canu'r un gân i'w huwchlwytho i Facebook o fewn un awr
 - o Y record ar hyn o bryd yw 418
- Y nifer mwyaf o fideos o bobl yn canu'r un gân i'w huwchlwytho i Twitter o fewn un awr
 - o Y record ar hyn o bryd yw 250

Ymunwch yn yr ymgais am y ddau deitl ar Twitter a Facebook

Ymarfer y gân a recordio eich fideo cyn 25 Ionawr:

- Rydym yn eich cynghori i recordio'r gân o flaen llaw, os nad **NAWR** yn bendant wythnos neu diwrnod cyn y parti pen-blwydd ar 25^{ain} Ionawr.
- Defnyddiwch eich ffôn clyfar neu ddyfais debyg i ffilmio eich hun yn canu 'Hei Mistar Urdd'.
- Recordiwch fel 'fideo' a safiwch gyda'ch 'lluniau' tan i chi ei uwchlwytho ar 25ain o Ionawr.
- Mae'n angen iddo fod yn fideo, nid trac sain yn unig.
- Mae'r union fersiwn o'r gân sydd angen ei chanu a'i pherfformio ar gael i'w lawrlwytho ar gael ar y dudalen [adnoddau](#). Canwch yr union eiriau hyn, sy'n cynnwys "1, 2, 1, 2, 3, Go!", y gytgan, y bennill gyntaf, ac yna'r gytgan eto, gan ailadrodd y llinell olaf.
- I wneud yn haws ac yn hwyl, gallwch chwarae'r gân neu'r fideo yn y cefndir, ond rhaid i'r canu fod yn uwch na'r trac, felly rydym yn eich argymhell i symud y seinydd fel ei fod mor bell â phosibl o'r ddyfais recordio.

Y mwyaf o fideos y gorau!

- Mae angen dros 418 o fideos i gael eu huwchlwytho i'r tudalen Facebook a dros 250 i Twitter.
- Felly y mwyaf o fideos unigol sy'n cael eu huwchlwytho gan y mwyaf o gyfrifon, y gorau. Felly os yn ysgol – penderfynwch sawl fideo allwch chi ei recordio, a sawl cyfrif Facebook a Twitter allwch chi ei defnyddio i'w uwchlwytho. Os yw eich ysgol yn caniatáu, defnyddiwch eich cyfrif personol, fel arall awgrymwch i ddosbarthiadau greu cyfrifon newydd er mwyn bod yn rhan o'r ymgais torri'r record byd.
- Gallwch rannu yr un fideo ar Twitter a Facebook, ond dim ond unwaith dylai un fideo gael ei ddefnyddio ar yr un plattform.

Gwaith paratoi eich cyfryngau cymdeithasol

- Hoffwch ein tudalen Facebook: www.facebook.com/Urdd100
- Cyn y parti Zoom, **paratowch eich post** yn barod i gyd-fynd gyda'r fideo
- A cofiwch cynnwys yr hashnod holl bwysig #YmgaisRecordBydYrUrdd

E.e: Dyma 28 o blant dosbarth 4, Ysgol XXX yn dymuno pen-blwydd hapus i'r @Urdd!
#YmgaisRecordBydYrUrdd

- Os yw eich cyfrif / tudalen / grŵp Facebook yn breifat bydd angen ei newid i fod yn gyhoeddus.
 - o Gallwch newid hwn yn ôl i fod yn breifat ar ddiwedd y 25ain o Ionawr.

- Ond cofiwch allwch chi ddefnyddio eich cyfrif personol hefyd.

25 o Ionawr

- **PARTI – 10.30am**

- Ymuno yn y parti ar Zoom (neu yn fyw ar Facebook / Youtube: Urdd Gobaith Cymru)

- **Torri record byd - yr awr fawr uwchlwytho! Rhwng 10.45 a 11.45am**

- Rhwng 10.45 a 11.45 uwchlwytho eich fideo i Twitter a Facebook.
- **Ar Twitter** uwchlwytho eich fideo, drwy tagio @Urdd a defnyddio'r hashnod holl bwysig **#YmgaisRecordBydYrUrdd**
- **Ar Facebook** drwy uwchlwytho'r video a'ch post fel ymateb i brif sylw (comment) ar y dudalen Ymgais Record Byd Yr Urdd / Guinness World Records™ title challenge:
 - Y sylw fydd: Postiwch eich fideos yn canu Hei Mistar Urdd yma, gan ddefnyddio'r hashnod #YmgaisRecordBydYrUrdd, nodwch faint o bobol sydd yn canu ac enw eich ysgol / busnes / sefydliad.
 - Peidiwch a phostio fel ymateb i bostiadau rhywun arall.
 - Peidiwch a phostio yn gyffredinol ar y tudalen, rhaid ymateb i'r sylw.
 - Cofiwch os yw eich cyfrif / tudalen / grŵp Facebook yn breifat bydd angen ei newid i fod yn gyhoeddus

Ychydig o rheolau ychwanegol gan Guinness World Records™:

- Gwnewch yn siŵr nad yw unigolyn/plentyn yn ymddangos mewn mwy nag un fideo.
- Os ydych eisiau ymuno fel dosbarth unigol, mae hynyn grêt, ond gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio cyfrifon gwahanol bob tro, gan os bydd un cyfrif yn uwchlwytho mwy nag un fideo, dim ond un fideo fydd yn cyfrif tuag at y record byd, ond cofiwch mae'n bosibl i ddefnyddio cyfrifon Twitter a Facebook personol os yw eich ysgol yn caniatáu.

Phew! Diolch am ddarllen y rheolau i gyd!

Byddem WRTH EIN BODDAU pe gallech chi ddod i'n parti pen-blwydd ar Zoom, neu ei wyllo ar YouTube neu Facebook live Urdd Gobaith Cymru, ond i fod yn rhan o'r ymgais am y ddwy record byd, nid oes yn rhaid i chi fynychu'r parti. Os nad ydych am ddefnyddio eich dolen parti Zoom, gadewch i ni wybod, oherwydd dim ond nifer gyfyngedig sy'n gallu mynychu'r parti.

Os hoffech unrhyw gymorth o gwbl gyda'r broses yma, neu os oes ganddo' chi gwestiwn, pa bynnag mor fawr neu fach, plis cysylltwch gyda helo@urdd.org, ni yma i helpu!

Ac yn olaf, diolch a mwynhewch!